# Detholion o Ddyddiaduron

## William Thomas Jones, Enlli

Buaswn yn disgrifio dyddiaduron William Thomas Jones fel cofnodion prin a gwerthfawr, sydd yn adlewyrchu gwaith gweinidog yr Efengyl ar ynys oedd, fwy neu lai, yn hunangynhaliol yn yr hen ddyddiau. Rhaid oedd wrth y drefn honno gan y byddai i ystormydd gerwin dorri pob cysylltiad oedd rhwng yr ynyswyr â'r tir mawr, hynny am gyfnodau maith o dro i dro.

I drigolion Enlli roedd hyn yn rhan o'u bywyd, a'r unig adegau y teimlent yr unigrwydd oedd pan fyddai angen meddyg i weini ar rhyw glaf neu'i gilydd, ond anaml y digwyddai hynny gan eu bod yn bobl iach ac wedi caledu i'r elfennau. Ni fyddai prinder bwyd gan y byddai cyflenwad da o flawd ar gael, ynghyd â chig a byddai hops ar gyfer gwneud burum yn tyfu yn naear ffrwythlon yr ynys. Yr unig gosbedigaeth oedd pan redai y te a'r siwgr i lawr, ac yn enwedig baco. Dyma'r pryd y dechreuai'r aniddigrwydd ym mysg y dynion, gydag ambell un yn amau nad doethach fyddai cartrefu ar y tir mawr o fewn cyrraedd siop. Ond pan giliai y storm, cilio hefyd wnâi'r amheuaeth, setlo i lawr i'r hen drefn ac ailafael yn eu bywyd unigryw.

Dechreua'r dyddiaduron ym 1875, ar ddyfodiad W. T. Jones i'r ynys i ymgymeryd â'r gwaith efengylu, y bu i'r Parchedig Robert Williams roddi tros ddeugain mlynedd o'i fywyd iddo.

**Ionawr 7. 1875.**
Deuthum i, William Thomas Jones, Ceunant, heddyw i Enlli yng nghwmni Capt. Harry Williams, Rhydlios i ymgymeryd a bod yn genhadwr yn yr ynys a chefais dderbyniad croesawgar a siriol yr holl ynyswyr, ac yn eu plith y Parch. Robert Williams.

Wrth fynd heibio cawn adrodd ychydig am y Parch Robert Williams.

Ymddengys mae mab y Gegin Fawr, Aberdaron ydoedd, ac ef oedd y gweinidog cyntaf i wasanaethu yr Arglwydd ar Enlli. Heblaw am ei swydd yn fugail yr eglwys roedd hefyd yn amaethwr, yn berchen llong a adeiladwyd iddo ym Mhorthdinllaen ac a alwyd yn *Robert Williams* hefyd, byddai yn pysgota. Efallai mai o reidrwydd y bu raid iddo droi ei olygon at y môr gan mai elw tlodaidd a dderbyniai o'r swydd grefyddol.

Cyfeiriodd Edmund Hyde Hall at Enlli ym 1810: *'A few families who on the ground till a few acres, but who look to the sea as the chief source of their maintenance'*, ac yn ddiau dyna wnaeth y gŵr parchedig.

Penodwyd gŵr ieuanc o'r enw Rees Griffith o ardal Aberdaron i fod yn feistr ar y *Robert Williams*, a thyfodd cyfeillgarwch rhwng Ann, merch y Parch R. Williams â'r meistr ieuanc, gyda'r canlyniad iddynt briodi. Masnachu rhwng Porthmadog, Stolin, Spaen, Newfoundland, yr Eidal a'r Môr Du fyddai y *Robert Williams* ond, ymhen blynyddoedd, gwerthwyd yr hen long i gwmni o wlad Groeg ac aeth Rees Griffith yn feistr ar ager long perthynol i'r Arglwydd Newborough. Gan fod eisiau anfon y llong i wlad Groeg bu raid wrth gapten trwyddedig, a chafwyd un o'r Rhiw yn Llŷn gyda'r cymwysterau angenrheidiol. Roedd y Parch Robert Williams yn mynd gyda'i long i Groeg i dderbyn y tâl amdani a chanwyd rhigwm am y digwyddiad.

Y Prysor oedd o Enlli
A'r Capten oedd o Rhiw
A dau o Aberdaron,
A dyna oedd y criw.

Ond i fynd yn ôl at y dyddiaduron.

**Ebrill 4. 1875.**
Bu farw heddyw Mr Evan John Williams. Cristin Isaf yn 64 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn mynwent Enlli. Ebrill 5.

Ychydig o gwmni y cyn-weinidog a gafodd W. T. Jones gan i Robert Williams farw ar y pedwerydd o Ebrill hefyd.

**Ebrill 4. 1875.**
Bu farw heddyw y Parch Robert Williams, Hen-dy yn 81 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn mynwent Enlli 8.4.1875. Wedi bod yn pregethu gyd ar Methodistiaid Calfinaidd am dros 40 mlynedd.

Byddai ymweliad perchennog yr ynys â'i eiddo yn cael ei gyfrif yn anrhydedd gan yr ynyswyr.

**Mai 21. 1875.**
Ymwelodd yr Anrhydeddus Arglwydd Newborough, Mr Wynn ei fab a De-Winton ar ynys heddyw, a buont yma tan Mai 23 – 1875.

**Rhagfyr 1875.**
Casglwyd yn yr ynys ar hyd y flwyddyn at wahanol bethau y swm o £18.10.0.
Cafwyd blwyddyn lwyddianus ar y cyfan mewn ystyr dymhorol a chrefyddol, cynyrch yr ynys ac iechyd y trigolion yn ganmoledig, a phrawfion amlwg hefyd o wenau yr Arglwydd mewn ystyr grefyddol yn galw dynion i'w winllan.

**Gorphenaf 20 – 1876.**
Daeth yr Anrhydeddus Arglwydd Newborough i'r ynys, ac ymadawodd oddi yma Gorphenaf 22.

**Gorphenaf 30 ac Awst 1af 1876.**
Agoriad y capel newydd a adeiladoddd yr Anrhydeddus Arglwydd Newborough er budd yr ynys, a chafwyd cyfarfod agoriadol ardderchog.

Rhoddwyd dewis i bobl Enlli gan Arglwydd Niwbwrch un ai gapel neu borthladd, ond gan gymaint eu ffyddlondeb at yr achos grefyddol, y capel a ddaeth yn gyntaf, ac mae'n gapel hardd. Cefais innau y fraint o eistedd ynddo ar brynhawn Sul, gant a deuddeg o flynyddau yn ddiweddarach. (gweler fy llun)




*Awdur yr erthygl yn cael seibiant ysbrydol yng nghapel Enlli.*

**Medi 7. 1876.**
Arglwydd Niwbwrch yn galw unwaith eto.

**Medi 10. 1876.**
Bedyddio Samuel Eliot Rambridge, bachgen i Mr. Samuel a Sarah Rambridge, Lighthouse.

**Hydref 3. 1876.**
Dynion Enlli yn achub dwylaw y llong Leah, pedwar mewn nifer, aeth y llong yn ddarnau ar greigiau'r ynys.

**Hydref 19. 1876.**
Bedyddio William Hughes, bachgen Mr Hugh a Margaret Hughes, Dynno Goch, Enlli.

**Mai 5. 1877.**
Mr a Mrs Williams, Foundry, Porthmadog yn anrhegu Eglwys M.C. Enlli, a cwpan fedydd hardd.

**Mai 22. 1877.**
Ymwelodd y personau a ganlyn ar ynys heddyw yn nghylch treth y tlodion, Mr Waller Browne a Mr T. Lloyd Murry Browne, Local Govt. Board, London.

**Mehefin 14, 1877.**
R. T. Pritchard Engr. Ty-Newydd, Fourcrosses yn anrhegu Capel Enlli a beibl Cymraeg, ac un Saesoneg yng nghyd a llyfr Hymnau i'w ddefnyddio ar y pwlpit, Welsh Bible £1. 6. 6. Do 6/- Hymn book 10/6. £2. 3. 0.

**Medi 10. 1877.**
Ymwelwyd ar ynys gan Charles Wynn Eng. Rhug, Nr. Corwen ynghyd a Mrs Wynn a boneddigesau eraill a hefyd Rev. O. H. Williams, Periglor, Bodfean. Wrth edrych y capel newydd, rhoddodd Mr Wynn 10/- at yr achos.

**Rhagfyr 15.1877.**
Llong ddrylliad ar drwyn y fonwent, yn agos i'r cafn, porthladd yr ynys. Tarawodd y graig hanner nos. Cafodd y ddau ddyn oedd arni, sef Captain Thomas Jones, Moelfre, Anglesea, a'r mate, Isac Collins, y lan yn ddiogel a derbyniwyd hwy'n garedig yn nhy Mr Griffith Pritchard, Ty-Pellaf.

**Ionawr 31. 1878.**
Griffith Pritchard, Ty-Pellaf yn bur wael.

**Chwefror** – Salwch hen wr Ty-Pellaf yn pryderu yr ynyswyr.

Roedd un peth yn nodweddiadol am drigolion Enlli. Pan fyddai gwaeledd byddai'r trigolion i gyd yn pryderu, fel mewn profedigaeth, byddai'r ynyswyr oll yn galaru, yn ogystal â llawenhau ar achlysur o enedigaeth.

**Mai 30. 1878.**
Ymweliad y llong *Fairy* o Caernarvon yn Enlli, gyda teithwyr, ond llai mewn nifer nag arferol.

**Gorph 30. 1878.**
Ymweliad y *Fairy* yn Enlli, cael hanner sofran at yr achos gan Mrs. Capt. Roberts. Caernarvon.

**Chwefror 13. 1879.**
Yr hen frawd Griffith Pritchard, Ty-Pellaf yn wael. Y mis hwn gadawodd un yr Iesu o gariad at y byd.

**Mehefin 5. 1879.**
Dodrefn yn cael eu prynu at y ty Cenhadol yn Enlli, yn shop Mr. J. Gabriel Jones. Pwllheli.

**Mehefin 10. 1879.**
Cwch o Rhiw, ger Aberdaron yn ceisio dyfod i Enlli. y cychwyr ac eraill oedd ynddo yn feddw. (Cywilyddus).

**Mehefin 18. 1879.**
Talodd Stemar perthynol i Gaernarvon o'r enw *Princess of Wales* ymweliad ag Enlli heddyw gyda odddeutu 108 o bassengers. Yr ymwelwyr yn cwyno na byddai genym flwch cenhadol yn perthyn i Enlli:- Trefnu blwch erbyn y tro nesaf.

**Gorphenaf 23. 1879.**
Heddyw daeth llong o Pwllheli a dodrefn i'r ty Cenhadol oddi wrth Mr. John Gabriel Jones, Watchmaker, Pwllheli.

**Medi 1af. 1879.**
Eisteddfod yn Enlli, ond anheilwng iawn o'r enw. Y stemar *Princess of Wales* wedi dod a phobl o Gaernarvon.